# COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A Hussain | RM James | B Jones | JE Lewis |
| JR McCarthy | G Thomas | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

193. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd y Cyng. B Jones gysylltiad personol ag eitem 13, Cais i Adnewyddu Trwyddedau, a gadawodd y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei hystyried oherwydd roedd yn adnabod yr ymgeisydd.

194. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd dyddiedig 30 Medi 2019 a 22 Hydref 2019 fel cofnod gwir a chywir.

195. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn i'r is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hurio preifat.

Gwnaed y cais gan Mr Paul Brain, Peyton Travel Limited o Ben-y-bont ar Ogwr. i drwyddedu cerbyd Renault Trafic Sport DCI, rhif cofrestru CV18 WZM fel cerbyd hurio preifat i gludo 8 person. Roedd y cerbyd yn ail-law ac wedi'i gofrestru gyda'r DVLA am y tro cyntaf ar 10 Mehefin 2018. Nifer milltiroedd presennol y cerbyd oedd 32,614.

Cynghorodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Roedd yr MOT cyntaf yn ddisgwyliedig ym mis Mehefin 2021 ac ni ddarparwyd unrhyw ddogfennau eraill.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r Is-bwyllgor at y detholiad yn y polisi cerbydau oedd yn berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Bod yr is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu rhif cofrestru cerbyd CV18 WZM fel cerbyd hurio preifat.

Nododd yr aelodau fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

At hynny, nododd yr Aelodau fod paragraff 2.2 y Polisi yn galluogi iddo gael ei lacio dan amgylchiadau eithriadol, fel y manylir ym mharagraff 2.4 y polisi.

Ar ôl astudio'r cerbyd, teimlai'r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ansawdd yr ochr fewnol ac allanol a'i rinweddau diogelwch. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

196. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNAI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn i'r is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hacnai.

Gwnaed y cais gan Mr Paul Brain, Peyton Travel Limited o Ben-y-bont ar Ogwr, i drwyddedu cerbyd Dacia Logan, rhif cofrestru LF17 WZM fel cerbyd hacnai i gludo 4 person. Roedd y cerbyd yn ail-law ac wedi'i gofrestru gyda'r DVLA am y tro cyntaf ar 31 Mawrth 2017. Nifer milltiroedd presennol y cerbyd oedd 17,524.

Cynghorodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacnai a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer y cerbyd dyddiedig 12 Rhagfyr 2018, lle cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 11,882.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r Is-bwyllgor at y detholiad yn y polisi cerbydau oedd yn berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu rhif cofrestru cerbyd LF17 WZM fel cerbyd hacnai.

Nododd yr aelodau fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

At hynny, nododd yr Aelodau fod paragraff 2.2 y Polisi yn galluogi iddo gael ei lacio dan amgylchiadau eithriadol, fel y manylir ym mharagraff 2.4 y polisi.

Ar ôl astudio'r cerbyd, ni fodlonwyd mwyafrif yr Is-bwyllgor fod y sedd ôl yn ddiogel a gwrthodwyd y cais.

197. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNAI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn i'r is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hacnai.

Gwnaed y cais gan Emma Parrott o Borthcawl, i drwyddedu cerbyd Toyota Avensis, rhif cofrestru MD66 WXJ fel cerbyd hacnai i gludo 4 person. Cofrestrwyd y cerbyd gyda'r DVLA am y tro cyntaf ar 31 Ionawr 2017. Nifer milltiroedd presennol y cerbyd oedd 33,866.

Cynghorodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacnai a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer y cerbyd dyddiedig 8 Gorffennaf 2018 lle cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 17,357 ac ar 10 Medi 2019, cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 31,925.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r Is-bwyllgor at y detholiad yn y polisi cerbydau oedd yn berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu rhif cofrestru cerbyd MD66 WXJ fel cerbyd hacnai.

Nododd yr aelodau fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

At hynny, nododd yr Aelodau fod paragraff 2.2 y Polisi yn galluogi iddo gael ei lacio dan amgylchiadau eithriadol, fel y manylir ym mharagraff 2.4 y polisi.

Ar ôl astudio'r cerbyd, ni fodlonwyd mwyafrif yr Is-bwyllgor fod y sedd ôl yn ddiogel a gwrthodwyd y cais.

198. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNAI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn i'r is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hacnai.

Gwnaed y cais gan Emma Parrott o Borthcawl i drwyddedu cerbyd Toyota Avensis, rhif cofrestru MF17 OJN fel cerbyd hacnai i gludo 4 person. Cofrestrwyd y cerbyd gyda'r DVLA am y tro cyntaf ar 31 Mawrth 2017. Nifer milltiroedd presennol y cerbyd oedd 14,875.

Cynghorodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacnai a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer y cerbyd dyddiedig 1 Tachwedd 2018 lle cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 11,620 ac ar 4 Medi 2019, cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 14,609.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r Is-bwyllgor at y detholiad yn y polisi cerbydau oedd yn berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu rhif cofrestru cerbyd MF17 OJN fel cerbyd hacnai.

Nododd yr aelodau fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

At hynny, nododd yr Aelodau fod paragraff 2.2 y Polisi yn galluogi iddo gael ei lacio dan amgylchiadau eithriadol, fel y manylir ym mharagraff 2.4 y polisi.

Ar ôl astudio'r cerbyd, teimlai'r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ansawdd yr ochr fewnol ac allanol a'i rinweddau diogelwch. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

199. CAIS AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad yn gofyn i'r is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer cerbyd hurio preifat. Esboniodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu ers i'r adroddiad gael ei baratoi, roedd yr ymgeisydd wedi rhoi plât rhif personol ar yr eiddo a'r rhif cofrestru erbyn hyn oedd S60 DKL. Ychwanegodd fod y gwaith papur ar gyfer y newid wedi'i gyflwyno.

Gwnaed y cais gan Mr David Llewellyn o'r Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr, i drwyddedu cerbyd Mercedes E Class, rhif cofrestru S60 DKL (VK17 OHX cyn hynny) fel cerbyd hurio preifat i gludo 4 person. Roedd y cerbyd yn ail-law ac wedi'i gofrestru gyda'r DVLA am y tro cyntaf ar 18 Mai 2017. Nifer milltiroedd presennol y cerbyd oedd 24,435.

Cynghorodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Cyflwynwyd adroddiad gwasanaeth ar gyfer 18 Ebrill 2017 lle cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 12,344 ac ar 18 Ebrill 2019 cofnodwyd mai nifer y milltiroedd oedd 25,524.

Cyfeiriodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu'r Is-bwyllgor at y detholiad yn y polisi cerbydau oedd yn berthnasol i'r cais hwn.

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu rhif cofrestru cerbyd S60 DKL (VK17 OHX yn flaenorol) fel cerbyd hurio preifat.

Nododd yr aelodau fod y cais yn cwympo y tu allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

At hynny, nododd yr Aelodau fod paragraff 2.2 y Polisi yn galluogi iddo gael ei lacio dan amgylchiadau eithriadol, fel y manylir ym mharagraff 2.4 y polisi.

Ar ôl astudio'r cerbyd, teimlai'r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ansawdd yr ochr fewnol ac allanol a'i rinweddau diogelwch. O'r herwydd, rhoddodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

200. EITEMAU BRYS

Dim

201. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

202. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD: I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion eithrio cyfarfod y 30 Medi 2019 a 22 Hydref 2019

203. CAIS I ROI TRWYDDEDAU

204. CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

205. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRRWR TACSI PRESENNOL

206. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRRWR TACSI PRESENNOL

Daeth y cyfarfod i ben am 13:05